

# Canllaw - Pwy Sy'n Gymwys



Yn yr RMBI, rydym yn gofalu am Seiri Rhyddion hŷn a'u teuluoedd yn ogystal â rhai pobl yn y gymuned. Mae gofalu wedi bod yn ffordd o fyw i ni ers 1842 ac rydym yn darparu cartref i dros 1,000 o bobl ledled Cymru a Lloegr - ac yn cefnogi llawer iawn mwy. P'un ai bod angen gofal preswyl neu ofal nyrsio, cymorth dementia arbenigol neu wasanaethau dydd ar bobl, rydym yn gofalu amdanynt yn broffesiynol ac yn garedig.

Mae sawl categori gwahanol o gymhwysedd a rhaid i chi fodloni meini prawf un o'r categorïau er mwyn gallu defnyddio ein gwasanaethau, neu i gael cymorth ariannol gan y Seiri Rhyddion. Mae ein gwasanaethau ar gael i bobl gyda chyllid preifat neu gyhoeddus. Rydym yn argymhell eich bod yn ymweld â [www.payingforcare.org](http://www.payingforcare.org) i gael rhagor o wybodaeth am y dewisiadau sydd ar gael i chi o ran talu am ofal ar sail eich amgylchiadau personol ac ariannol.

Ym mhob achos, bydd dod i gytundeb terfynol ynghylch a fyddwn yn cynnig lle i chi yn un o'n Cartrefi ai peidio yn dibynnu ar asesiad unigol er mwyn sicrhau ein bod yn gallu diwallu eich anghenion ac yn cytuno ar sut bydd eich gofal yn cael ei ariannu. Fel arfer, mae'n rhaid i chi fod yn 65 oed cyn y cewch chi ddod i fyw i un o Gartrefi RMBI, ond mae pobl o dan yr oedran hwn yn gallu gwneud cais a bydd ein Hymddiriedolwyr yn ystyried eu cais. I gael rhagor o wybodaeth neu gyngor, cysylltwch â Phrif Swyddfa RMBI ar 020 7596 2400 neu siaradwch â Rheolwr eich Cartref lleol.

## 1. Y Seiri Rhyddion

Mae Saer Rhydd yn gymwys i ddod yn breswlydd mewn Cartref RMBI o dan yr amgylchiadau canlynol:

- i. Os oedd yr angen iddo ddod i Gartref RMBI wedi codi ar ôl iddo ymuno â'r Seiri Rhyddion, ac
- ii. Mewn achos lle nad yw bellach yn aelod sy'n tanysgrifio, ni chaiff yr amser sydd wedi pasio ers iddo roi'r gorau i danysgrifio fod ddim hwy na dwywaith hyd yr amser y bu'n tanysgrifio. E.e. Pe bai rhywun yn cael ei dderbyn yn Saer Rhydd yn 2010 ac yn dirwyn ei aelodaeth i ben yn 2015, byddai wedi bod yn aelod am bum mlynedd. Felly, gall wneud cais am gymorth am hyd at 10 mlynedd, sef tan 2025 - dwywaith hyd yr amser y bu'n tanysgrifio.

## 2. Pâr Priod

Mae pâr priod yn gymwys i ddod yn breswylwyr mewn Cartref RMBI ar yr amod bod y meini prawf ar gyfer Saer Rhydd sydd wedi'u nodi yng nghategori 1 yn cael eu bodloni.

## 3. Gweddwon/partneriaid sy'n weddw

Mae gweddwon/partneriaid sy'n weddw yn gymwys i ddod yn breswylwyr mewn Cartref RMBI ar yr amod bod y meini prawf ar gyfer Saer Rhydd sydd wedi'u nodi yng nghategori 1 yn cael eu bodloni. Os oedd y g r sydd wedi marw yn tanysgrifio i'r Seiri Rhyddion adeg ei farwolaeth, nid yw'r cyfyngiad amser o dan gategori 1 yn berthnasol.

#### 4. Gwragedd/partneriaid

Mae gwraig/partner Saer Rhydd yn gymwys i gael cymorth ar yr amod bod y meini prawf ar gyfer Saer Rhydd sydd wedi'u nodi yng nghategori 1 yn cael eu bodloni. Mae gwragedd a phartneriaid sydd wedi gwahanu neu sydd wedi ysgaru hefyd yn gymwys ar yr amod nad ydynt wedi ailbriodi neu'n cydfyw â phartner newydd (mae hyn hefyd yn berthnasol yng nghyswllt gweddwon).

#### 5. Pobl eraill sy'n ddibynnol ar Saer Rhydd

Mae perthnasau eraill sy'n ddibynnol ar Saer Rhydd neu Saer Rhydd sydd wedi marw yn gymwys i gael cymorth os ydi'r Saer Rhydd wedi bod yn darparu cymorth ariannol neu gorfforol sylweddol dros gyfnod hir i'r unigolion dan sylw, ac ar yr amod bod y meini prawf ar gyfer Saer Rhydd sydd wedi'u nodi yng nghategori 1 yn cael eu bodloni.

#### 6. Pobl eraill sy'n perthyn i Saer Rhydd

Mae rhai pobl eraill penodol sy'n perthyn i Saer Rhydd yn gymwys i gael cymorth, hyd yn oed os nad ydynt yn ddibynnol ar Saer Rhydd, sef rhieni, perthnasau yng nghyfraith, brodyr a chwiorydd a neiniau a theidiau. Unwaith eto, rhaid bodloni'r meini prawf ar gyfer Saer Rhydd sydd wedi'u nodi yng nghategori 1.

#### 7. Ymgeiswyr heb unrhyw gyswllt â'r Seiri Rhyddion

Mae gennym nifer gyfyngedig o leoedd ar gael i bobl sydd heb gysylltiad â'r Seiri Rhyddion. Caiff y ceisiadau hyn eu hadolygu ar sail bob achos yn unigol gyda Rheolwr y Cartref perthnasol a bydd yntau'n rhoi cyngor ar argaeledd a'r broses ymgeisio gysylltiedig. Byddwn bob amser yn rhoi blaenoriaeth i Seiri Rhyddion a'u teuluoedd.

[www.rmbi.org.uk](http://www.rmbi.org.uk)

 [facebook.com/thermbi](https://www.facebook.com/thermbi)

 [twitter.com/thermbi](https://twitter.com/thermbi)

Royal Masonic Benevolent Institution  
60 Great Queen Street, London WC2B 5AZ  
T: 020 7596 2400 E: [enquiries@rmbi.org.uk](mailto:enquiries@rmbi.org.uk)

#### Nodiadau ac amodau

Bydd angen i ymgeiswyr cymwys sy'n ariannu eu gofal eu hunain dalu'r ffioedd am eu gofal yn unol â gofynion RMBI a'r llywodraeth.

Disgwylir i ymgeiswyr, sydd â chysylltiad â'r Seiri Rhyddion, neu sydd heb gysylltiad â'r Seiri Rhyddion, ac sydd ddim yn gallu ariannu eu gofal eu hunain, dalu ffi sylfaenol a gaiff ei thalu gan yr awdurdod lleol (yn dilyn asesiad gan yr awdurdod lleol, ac ar yr amod bod yr awdurdod yn penderfynu bod eich anghenion yn golygu bod angen i chi gael lle mewn cartref gofal). Nid yw ffioedd yr awdurdod lleol yn talu holl gostau eich gofal. Yng nghyswllt ymgeiswyr sy'n cael eu cyllido fel hyn, bydd Sefydliad Elusennol y Seiri Rhyddion yn rhoi cymorth ariannol drwy gyfrwng RMBI Care Co.

Bydd Seiri Rhyddion sydd wedi'u gwahardd yn gymwys cyn belled ag y bo nhw wedi bod yn tanysgrifio am gyfnod sydd o leiaf hanner cyhyd â'r cyfnod ers iddyn nhw gael eu gwahardd. Nid yw Seiri Rhyddion sydd wedi cael eu diarddel yn gymwys i gael cymorth, ond mae eu perthnasau yn gymwys.